# Agenda - Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda via Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 5 Tachwedd 2020

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Alun Davidson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddMADY@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.**

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar senedd.tv.

**Cyfnod cofrestru**

(13.30-14.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.00)

## 2 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

(14.00-15.30) (Tudalennau 1 - 99)

Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

Sophie Brighouse - Llywodraeth Cymru

Ed Sherriff - Llywodraeth Cymru

Emily Hole - Llywodraeth Cymru

## 3 Papurau i'w nodi

(15.30-15.35)

**3.1 Papur i'w nodi 1: Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Llywydd mewn perthynas â chraffu ar reoliadau Covid-19 - 22 Hydref 2020**

(Tudalennau 100 - 102)

3.2 Papur i'w nodi 2: Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch y Cytundeb Amlinellol Fframwaith drafft ar gyfer Cynllunio o ran Sylweddau Peryglus - 26 Hydref 2020

(Tudalennau 103 - 106)

3.3 Papur i'w nodi 3: Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd at y Cadeirydd ynghylch negodiadau yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a Chymdeithas Masnach Rydd Ewrop - 27 Hydref 2020

(Tudalennau 107 - 110)

3.4 Papur i'w nodi 4: Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd at y Cadeirydd ynghylch Cysylltiadau Rhynglywodraethol - 27 Hydref 2020

(Tudalennau 111 - 114)

3.5 Papur i'w nodi 5: Gohebiaeth gan y Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach at y Cadeirydd ynghylch Grwpiau Cynghori ar Fasnach - 27 Hydref 2020

(Tudalennau 115 - 116)

3.6 Papur i'w nodi 6: Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd at y Cadeirydd ynghylch Grwpiau Cynghori ar Fasnach - 29 Hydref 2020

(Tudalennau 117 - 120)

3.7 Papur i'w nodi 7: Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru at y Cadeirydd ynghylch y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig - 3 Tachwedd 2020

(Tudalennau 121 - 122)

3.8 Papur i'w nodi 8: Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd at y Cadeirydd ynghylch Bil Masnach 2020: Cydsyniad Deddfwriaethol - 3 Tachwedd 2020

(Tudalennau 123 - 125)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(15.35)

**5 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd - trafod y dystiolaeth**

(15.35-15.50)

**6 Trafod cytundebau rhyngwladol**

(15.50-16.00) (Tudalennau 126 - 128)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Welsh Parliament
Legislation, Justice and Constitution Committee

Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

22 Hydref 2020

Annwyl Elin

**Craffu ar reoliadau Covid-19**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Hydref 2020, a drafodwyd gennym yn ein cyfarfodydd ar 12 Hydref a 19 Hydref 2020.

Roedd eich llythyr yn ceisio canfod a fyddai'n briodol bod Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at Reoliadau newydd lle'r oedd yr egwyddor sylfaenol eisoes wedi bod yn destun craffu, er mwyn galluogi'r Pwyllgor Busnes i wneud penderfyniad ynghylch lefel y gwaith craffu pellach a allai fod yn ofynnol cyn y ddadl. O ganlyniad, gwnaethoch ofyn am ein barn ynghylch a oedd posibilrwydd o alluogi rhai Rheoliadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 i gael eu blaenoriaethu i'w trafod mewn amgylchiadau o'r fath.

Nid ydym yn credu bod yr opsiwn a awgrymwyd gan y Pwyllgor Busnes yn briodol am sawl rheswm. Yn ein barn ni, ni ddylai cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw fath o ddeddfwriaeth fod ar sail 'mewn egwyddor'. Felly nid ydym yn gweld y bydd gennym rôl wrth gymeradwyo (neu wrthod) unrhyw asesiad gan Lywodraeth Cymru bod cyfres benodol o reoliadau, mewn egwyddor, yr un fath â chyfres flaenorol. At hynny, byddai gwerth asesiad o'r fath yn amheus yn ein barn ni, o gofio er y gallai cyfres newydd o reoliadau ddilyn amcan polisi tebyg, y gallent fod yn destun pwyntiau i adrodd yn eu cylch o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 o hyd.

Credwn fod ein gwaith craffu ar yr holl reoliadau Covid-19 wedi bod yn effeithlon ac amserol. Rydym wedi adrodd ar y mwyafrif o reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gwneud cadarnhaol cyn pen 14 diwrnod ar ôl gosod yr offeryn. Yn y mwyafrif o achosion, mae hyn wedi galluogi'r Senedd i bleidleisio ar a ddylai'r rheoliadau aros mewn grym ymhell cyn yr 28 diwrnod a ganiateir yn ôl *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984* a'r 40 diwrnod a ganiateir yn ôl *Deddf y Coronafeirws 2020* (y cydsyniodd y Senedd iddi ym mis Mawrth eleni). Byddem hefyd yn dymuno tynnu sylw at y ffaith bod mwyafrif y rheoliadau gwneud cadarnhaol wedi'u gosod ar ddydd

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Gwener; mae hyn, ynghyd â'n slot cyfarfod ar fore Llun yn golygu y bu, yn anochel, bwlch o wythnos rhwng y gosod a chraffu ar y rheoliadau gan y Pwyllgor, waeth beth fu'r gwaith a oedd yn angenrheidiol i baratoi adroddiadau i'w hystyried gan y Pwyllgor. Rydym hefyd yn tynnu sylw at sylwadau Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn y Cyfarfod Llawn ar **6 Hydref 2020**, yr ydym yn eu croesawu:

> "Rwyf i hefyd yn croesawu'r ffaith bod y pwyllgor, o bryd i'w gilydd, wedi ein helpu ni o ran cysondeb mewn darpariaethau deddfwriaethol. Mae hynny'n rhan o bwynt y craffu. Rydym ni'n gwneud y rheoliadau hyn mewn modd cyflym oherwydd y darlun sy'n newid yn gyflym o ran y coronafeirws, ac rwy'n credu bod gwerth i'r pwyllgor ymgymryd â'i swyddogaeth graffu cyn i'r ddeddfwrfa wedyn allu arfer ei swyddogaeth wrth benderfynu pa un a all y rheoliadau hyn barhau ai peidio."

Rydym, serch hynny, wedi ystyried amrywiaeth o opsiynau i hwyluso proses graffu gyflymach fyth. Gwnaethom drafod a fyddai cyfarfod yn amlach nag unwaith yr wythnos yn hwyluso'r gwaith craffu ar reoliadau a osodir gan Lywodraeth Cymru ar wahanol adegau yn ystod yr wythnos waith flaenorol. O ystyried arfer Llywodraeth Cymru o osod mwyafrif y rheoliadau gwneud cadarnhaol ar ddydd Gwener, gwnaethom hefyd ystyried a fyddai'n ymarferol symud slot cyfarfod rheolaidd ein Pwyllgor i fore Mercher, er mwyn ystyried rheoliadau a wnaed y dydd Gwener blaenorol ac i osod adroddiad mewn pryd ar gyfer dadl y prynhawn hwnnw. Gwnaethom hefyd drafod a allem roi ymrwymiad ffurfiol i adrodd ar reoliadau gwneud cadarnhaol o fewn terfyn amser o 14 diwrnod.

Daethom i'r casgliad, fodd bynnag, bod dulliau o'r fath yn debygol iawn o arwain at broblemau sylweddol o ran amserlennu ar gyfer Llywodraeth Cymru ac Aelodau o'r Senedd. At hynny, o ystyried cymhlethdod y ddeddfwriaeth hon, mae unrhyw ffurfioli o ran ein trefniadau presennol ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Covid-19 angen ei ystyried ochr yn ochr â nifer cynyddol o ddeddfwriaeth sy'n ymdrin ag ymadawiad y DU â'r UE, yn anad dim oherwydd y gallai ffurfioli o'r fath ei gwneud yn ofynnol i gael adnoddau ychwanegol neu batrymau gwaith gwahanol. Mae'r pwynt olaf hwn yn arbennig o berthnasol o ystyried bod ein cylch gwaith yn golygu bod ein rhaglen waith wedi'i chyfyngu'n fawr ar hyn o bryd gan y gwaith craffu angenrheidiol a phwysig ar is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE a memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Biliau sy'n ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE, gan gynnwys Bil Marchnad Fewnol y DU sy'n arwyddocaol o ran y cyfansoddiad.

Rydym yn cydnabod bod materion sy'n ymwneud â'r pandemig wedi'u blaenoriaethu yn amser y llywodraeth yn ystod sesiynau'r Cyfarfod Llawn. Gwnaethom hefyd ystyried a allai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft os yn bosibl o gwbl wrth lunio deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Covid-19 o dan adran 45C o Ddeddf 1984. Er ein bod yn gwerthfawrogi efallai na fydd hyn yn ymarferol, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried a oes cyfleoedd o gwbl i'w defnyddio.

Byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod gwaith craffu ar reoliadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 yn cael ei gynnal mewn modd amserol. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y dylid peryglu ein swyddogaeth graffu o dan unrhyw amgylchiadau.

Anfonaf gopi o’r llythyr hwn at Gadeiryddion pob pwyllgor.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

Julie James AS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

26 Hydref 2020

Annwyl Julie,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 15 Hydref 2020, yn ymwneud â'r Cytundeb Amlinellol Fframwaith drafft ar gyfer Cynllunio o ran Sylweddau Peryglus.

Ar hyn o bryd, o ran fframweithiau cyffredin y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi cyn diwedd 2020, gallu cyfyngedig sydd gan y Pwyllgor i graffu ar y rhai sy'n dod o fewn ei gylch gwaith. Nid ydym yn rhagweld gwneud gwaith sylweddol ar y darpar Gytundeb Amlinellol Fframwaith ar gyfer Cynllunio o ran Sylweddau Peryglus, ond byddai'n dda cael ymateb gennych ar yr isod:

Datblygu'r fframwaith cyffredin

**1. A allwch chi egluro pam, yn eich barn chi, y mae angen fframwaith yn y maes polisi hwn?**

**2. A allwch ehangu ar pam y dewisodd gweinyddiaethau'r DU ddilyn fframwaith anneddfwriaethol?**

**3. A allwch chi amlinellu sut rydych chi wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid Cymru, gan gynnwys diwydiant, awdurdodau cynllunio lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru, wrth ddatblygu'r fframwaith?**

**4. A allwch chi amlinellu'r materion allweddol a godwyd gan randdeiliaid Cymru a sut mae'r rhain wedi cael eu hadlewyrchu yn y fframwaith?**

Rhyngweithio â chyfraith ddomestig, cyfraith ryngwladol a chytundebau rhyngwladol

**5. A allwch egluro a yw'r fframwaith yn rhyngweithio â deddfwriaeth ddomestig bresennol, ar wahân i'r hyn sydd eisoes wedi'i restru yn Adran 1 o'r Cytundeb Amlinellol Fframwaith drafft?**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565

6. Mae'r DU yn llofnodwr i ddau gytundeb rhyngwladol sy'n berthnasol i'r gyfundrefn ar gyfer sylweddau peryglus: Confensiwn Aarhus a Chonfensiwn Effeithiau Trawsffiniol Damweiniau Diwydiannol. **A allwch chi ehangu ar sut y bydd y fframwaith yn sicrhau y cydymffurfir â'r Confensiynau hyn?**

**7. A allwch egluro a fydd canlyniad y trafodaethau parhaus rhwng yr UE a'r DU ar y Berthynas yn y Dyfodol yn effeithio ar y fframwaith, ac os felly, sut?**

**8. A allwch egluro a fydd Bil Marchnad Fewnol Llywodraeth y DU yn effeithio ar y fframwaith, ac os felly, sut?**

Proses graffu ac amserlenni

**9. A allwch gadarnhau y bydd y fframwaith yn cynnwys y Cytundeb Amlinellol Fframwaith dros dro, y Concordat a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddiweddaru y cyfeirir atynt yn y Cytundeb Amlinellol Fframwaith drafft?**

**10. A allwch egluro a fydd y Concordat a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddiweddaru ar gael i'r Senedd graffu arnynt?**

**11. A allwch egluro'r amserlen ar gyfer gwaith craffu'r Senedd ar y Cytundeb Amlinellol Fframwaith dros dro a'r dogfennau cysylltiedig?**

Trefniadau monitro ac adolygu ar gyfer y fframwaith

Yn ôl y Cytundeb Amlinellol Fframwaith drafft, nid oes unrhyw fesurau monitro ffurfiol yn gysylltiedig â'r fframwaith. Yn lle hynny, bydd arweinwyr polisi ym mhob gweinyddiaeth yn cynnal cynadleddau ffôn bob chwe mis "to discuss any issues and share learning". Yn ogystal, fe gynhelir cyfarfod adolygu rhwng gweinyddiaethau'r DU ddwy flynedd ar ôl i'r fframwaith ddod i rym.

**12. A allwch chi egluro pam mae gweinyddiaethau'r DU wedi dewis peidio â sefydlu system fwy ffurfiol ar gyfer monitro'r gwaith o weithredu'r fframwaith?**

**13. A allwch egluro a fydd adroddiad o'r cyfarfod adolygu cyd-rhwng gweinyddiaethau'r DU ar gael i'r cyhoedd?**

Mae'r Cytundeb Amlinellol Fframwaith drafft yn nodi y byddai cyfranogiad rhanddeiliaid yn y broses adolygu a diwygio ar gyfer y fframwaith yn cael ei ystyried ar y pryd.

**14. A allwch chi egluro o dan ba amgylchiadau y byddai'n amhriodol cynnwys rhanddeiliaid yn y broses adolygu ar gyfer y fframwaith?**

**15. A allwch chi gadarnhau a fydd y Senedd yn gallu cyfrannu i'r gwaith o adolygu a diwygio'r fframwaith, ac os felly, sut?**

Cefndir y fframwaith cyffredin

**16. A allwch chi amlinellu 'gofynion sylfaenol' Cyfarwyddeb Seveso III mewn perthynas â chynllunio o ran sylweddau peryglus, sy'n gyffredin ledled y DU?**

Yn ôl y Cytundeb Amlinellol Fframwaith drafft, mae cryn le ar gyfer gwahaniaeth yn barod o dan y gyfundrefn gynllunio gyfredol o ran sylweddau peryglus. Fodd bynnag, mae nifer o gyfyngiadau ar yr hyn y gall gweinyddiaethau'r DU ei ddiwygio, yn seiliedig ar yr hyn a osodwyd ar lefel yr UE. Mae'r cyfyngiadau allweddol yn cynnwys newid y diffiniad o sefydliad a gostwng safonau ynghylch beth yw sylwedd peryglus.

**17. A allwch chi ddarparu mwy o fanylion am faint o gyfle sydd ar gyfer gwahaniaeth o dan y gyfundrefn gynllunio gyfredol o ran sylweddau peryglus?**

Y gyfundrefn gynllunio ar gyfer sylweddau peryglus wedi Ymadael â'r UE

**18. A allwch egluro a fydd unrhyw un neu rai o'r 'cyfyngiadau allweddol' cyfredol yn cael eu cynnal ledled y DU yn y cyfnod wedi ymadael â'r UE? Sut y bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y fframwaith?**

O dan y gyfundrefn gynllunio gyfredol ar gyfer sylweddau peryglus, mae gofynion sylfaenol cyffredin ledled y DU. Efallai nad felly y bydd hi o reidrwydd o dan y gyfundrefn wedi ymadael â'r UE, gan y bydd gan weinyddiaethau'r DU gwmpas ehangach i ddefnyddio'u pwerau i wneud newidiadau. Gallai'r newidiadau hyn gynnwys llacio gofynion ynghylch lefel y sylweddau y gellir eu dal cyn cychwyn y broses gydsynio, ac o bosibl (mewn senario lle na fyddai'r egwyddor dim atchwelyd yn berthnasol) gael gwared ar reolaethau ar gyfer rhai sylweddau yn llwyr.

**19. Pa ystyriaeth a roddwyd i gynnal gofynion sylfaenol cyffredin, gan gynnwys, er enghraifft, safonau gofynnol ar gyfer beth yw sylwedd peryglus?**

**20. Beth yw'r risgiau a'r cyfleoedd posibl yn gysylltiedig â pheidio â chynnal gofynion sylfaenol cyffredin ac ehangu'r cyfle ar gyfer gwiriadau?**

**21. I ba raddau yr ydych chi'n fodlon na fydd y dull a ddewiswyd ar gyfer y maes polisi hwn, h.y. fframwaith anneddfwriaethol, yn arwain at safonau is a gostyngiad yn lefelau'r amddiffyniad ar gyfer iechyd pobl a'r amgylchedd?**

**22. I ba raddau mae'r fframwaith yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddim atchwelyd o ran safonau amgylcheddol?**

Cynigion ar gyfer newidiadau i'r gyfundrefn gynllunio ar gyfer sylweddau peryglus yn y dyfodol

Wrth ymateb i'r Ymgynghoriad ar drosi gofynion cynllunio defnydd tir Cyfarwyddeb Seveso III ar reoli peryglon damweiniau mawr (Awst 2015), nododd Llywodraeth Cymru y byddai'n ystyried diwygio'r gyfundrefn yn ddiweddarach.

**23. A allwch egluro a yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw waith ar gynigion i ddiwygio'r gyfundrefn gynllunio ar gyfer sylweddau peryglus ers yr ymgynghoriad uchod?**

**24. A allwch egluro a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau nawr neu yn y dyfodol i adolygu'r gyfundrefn gynllunio ar gyfer sylweddau peryglus?**

**25. O dan ba amgylchiadau y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried cynigion i ostwng rheolaethau yn is na’r gofynion sylfaenol cyfredol, er enghraifft, ynghylch lefel y sylweddau y gellir eu dal, neu mewn perthynas â'r broses gydsynio?**

**26. A allwch egluro a fyddai newidiadau i'r gofynion sylfaenol cyfredol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd?**

**27. I ba raddau yr ydych chi'n fodlon bod digon o arbenigedd technegol ar lefel Cymru neu'r DU i gymryd lle’r hyn sydd ar gael ar lefel UE ar hyn o bryd yn y maes polisi hwn?**

**28. Yn absenoldeb gofynion newydd neu ddiwygiedig yr UE mewn perthynas â chynllunio o ran sylweddau peryglus sy'n gymwys i'r DU, pa drefniadau a roddir ar waith i adolygu gofynion domestig, gan ystyried datblygiadau mewn mannau eraill?**

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i’r cwestiynau uchod cyn gynted â phosibl, ac erbyn 13 Tachwedd 2020 fan bellaf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, a Chadeirydd Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

Yn gywir,



**Mike Hedges AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Julie James AS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

26 Hydref 2020

Annwyl Julie,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 15 Hydref 2020, yn ymwneud â'r Cytundeb Amlinellol Fframwaith drafft ar gyfer Cynllunio o ran Sylweddau Peryglus.

Ar hyn o bryd, o ran fframweithiau cyffredin y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi cyn diwedd 2020, gallu cyfyngedig sydd gan y Pwyllgor i graffu ar y rhai sy'n dod o fewn ei gylch gwaith. Nid ydym yn rhagweld gwneud gwaith sylweddol ar y darpar Gytundeb Amlinellol Fframwaith ar gyfer Cynllunio o ran Sylweddau Peryglus, ond byddai'n dda cael ymateb gennych ar yr isod:

<u>Datblygu'r fframwaith cyffredin</u>

**1. A allwch chi egluro pam, yn eich barn chi, y mae angen fframwaith yn y maes polisi hwn?**

**2. A allwch ehangu ar pam y dewisodd gweinyddiaethau'r DU ddilyn fframwaith anneddfwriaethol?**

**3. A allwch chi amlinellu sut rydych chi wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid Cymru, gan gynnwys diwydiant, awdurdodau cynllunio lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru, wrth ddatblygu'r fframwaith?**

**4. A allwch chi amlinellu'r materion allweddol a godwyd gan randdeiliaid Cymru a sut mae'r rhain wedi cael eu hadlewyrchu yn y fframwaith?**

<u>Rhyngweithio â chyfraith ddomestig, cyfraith ryngwladol a chytundebau rhyngwladol</u>

**5. A allwch egluro a yw'r fframwaith yn rhyngweithio â deddfwriaeth ddomestig bresennol, ar wahân i'r hyn sydd eisoes wedi'i restru yn Adran 1 o'r Cytundeb Amlinellol Fframwaith drafft?**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565

6. Mae'r DU yn llofnodwr i ddau gytundeb rhyngwladol sy'n berthnasol i'r gyfundrefn ar gyfer sylweddau peryglus: Confensiwn Aarhus a Chonfensiwn Effeithiau Trawsffiniol Damweiniau Diwydiannol. **A allwch chi ehangu ar sut y bydd y fframwaith yn sicrhau y cydymffurfir â'r Confensiynau hyn?**

**7. A allwch egluro a fydd canlyniad y trafodaethau parhaus rhwng yr UE a'r DU ar y Berthynas yn y Dyfodol yn effeithio ar y fframwaith, ac os felly, sut?**

**8. A allwch egluro a fydd Bil Marchnad Fewnol Llywodraeth y DU yn effeithio ar y fframwaith, ac os felly, sut?**

Proses graffu ac amserlenni

**9. A allwch gadarnhau y bydd y fframwaith yn cynnwys y Cytundeb Amlinellol Fframwaith dros dro, y Concordat a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddiweddaru y cyfeirir atynt yn y Cytundeb Amlinellol Fframwaith drafft?**

**10. A allwch egluro a fydd y Concordat a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddiweddaru ar gael i'r Senedd graffu arnynt?**

**11. A allwch egluro'r amserlen ar gyfer gwaith craffu'r Senedd ar y Cytundeb Amlinellol Fframwaith dros dro a'r dogfennau cysylltiedig?**

Trefniadau monitro ac adolygu ar gyfer y fframwaith

Yn ôl y Cytundeb Amlinellol Fframwaith drafft, nid oes unrhyw fesurau monitro ffurfiol yn gysylltiedig â'r fframwaith. Yn lle hynny, bydd arweinwyr polisi ym mhob gweinyddiaeth yn cynnal cynadleddau ffôn bob chwe mis “to discuss any issues and share learning”. Yn ogystal, fe gynhelir cyfarfod adolygu rhwng gweinyddiaethau'r DU ddwy flynedd ar ôl i'r fframwaith ddod i rym.

**12. A allwch chi egluro pam mae gweinyddiaethau'r DU wedi dewis peidio â sefydlu system fwy ffurfiol ar gyfer monitro’r gwaith o weithredu’r fframwaith?**

**13. A allwch egluro a fydd adroddiad o’r cyfarfod adolygu cyd-rhwng gweinyddiaethau'r DU ar gael i'r cyhoedd?**

Mae’r Cytundeb Amlinellol Fframwaith drafft yn nodi y byddai cyfranogiad rhanddeiliaid yn y broses adolygu a diwygio ar gyfer y fframwaith yn cael ei ystyried ar y pryd.

**14. A allwch chi egluro o dan ba amgylchiadau y byddai’n amhriodol cynnwys rhanddeiliaid yn y broses adolygu ar gyfer y fframwaith?**

**15. A allwch chi gadarnhau a fydd y Senedd yn gallu cyfrannu i’r gwaith o adolygu a diwygio’r fframwaith, ac os felly, sut?**

Cefndir y fframwaith cyffredin

**16. A allwch chi amlinellu 'gofynion sylfaenol' Cyfarwyddeb Seveso III mewn perthynas â chynllunio o ran sylweddau peryglus, sy'n gyffredin ledled y DU?**

Yn ôl y Cytundeb Amlinellol Fframwaith drafft, mae cryn le ar gyfer gwahaniaeth yn barod o dan y gyfundrefn gynllunio gyfredol o ran sylweddau peryglus. Fodd bynnag, mae nifer o gyfyngiadau ar yr hyn y gall gweinyddiaethau'r DU ei ddiwygio, yn seiliedig ar yr hyn a osodwyd ar lefel yr UE. Mae'r cyfyngiadau allweddol yn cynnwys newid y diffiniad o sefydliad a gostwng safonau ynghylch beth yw sylwedd peryglus.

**17. A allwch chi ddarparu mwy o fanylion am faint o gyfle sydd ar gyfer gwahaniaeth o dan y gyfundrefn gynllunio gyfredol o ran sylweddau peryglus?**

Y gyfundrefn gynllunio ar gyfer sylweddau peryglus wedi Ymadael â'r UE

**18. A allwch egluro a fydd unrhyw un neu rai o'r 'cyfyngiadau allweddol' cyfredol yn cael eu cynnal ledled y DU yn y cyfnod wedi ymadael â'r UE? Sut y bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y fframwaith?**

O dan y gyfundrefn gynllunio gyfredol ar gyfer sylweddau peryglus, mae gofynion sylfaenol cyffredin ledled y DU. Efallai nad felly y bydd hi o reidrwydd o dan y gyfundrefn wedi ymadael â'r UE, gan y bydd gan weinyddiaethau'r DU gwmpas ehangach i ddefnyddio'u pwerau i wneud newidiadau. Gallai'r newidiadau hyn gynnwys llacio gofynion ynghylch lefel y sylweddau y gellir eu dal cyn cychwyn y broses gydsynio, ac o bosibl (mewn senario lle na fyddai'r egwyddor dim atchwelyd yn berthnasol) gael gwared ar reolaethau ar gyfer rhai sylweddau yn llwyr.

**19. Pa ystyriaeth a roddwyd i gynnal gofynion sylfaenol cyffredin, gan gynnwys, er enghraifft, safonau gofynnol ar gyfer beth yw sylwedd peryglus?**

**20. Beth yw'r risgiau a'r cyfleoedd posibl yn gysylltiedig â pheidio â chynnal gofynion sylfaenol cyffredin ac ehangu'r cyfle ar gyfer gwiriadau?**

**21. I ba raddau yr ydych chi'n fodlon na fydd y dull a ddewiswyd ar gyfer y maes polisi hwn, h.y. fframwaith anneddfwriaethol, yn arwain at safonau is a gostyngiad yn lefelau'r amddiffyniad ar gyfer iechyd pobl a'r amgylchedd?**

**22. I ba raddau mae'r fframwaith yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddim atchwelyd o ran safonau amgylcheddol?**

Cynigion ar gyfer newidiadau i'r gyfundrefn gynllunio ar gyfer sylweddau peryglus yn y dyfodol

Wrth ymateb i'r Ymgynghoriad ar drosi gofynion cynllunio defnydd tir Cyfarwyddeb Seveso III ar reoli peryglon damweiniau mawr (Awst 2015), nododd Llywodraeth Cymru y byddai'n ystyried diwygio'r gyfundrefn yn ddiweddarach.

**23. A allwch egluro a yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw waith ar gynigion i ddiwygio'r gyfundrefn gynllunio ar gyfer sylweddau peryglus ers yr ymgynghoriad uchod?**

**24. A allwch egluro a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau nawr neu yn y dyfodol i adolygu'r gyfundrefn gynllunio ar gyfer sylweddau peryglus?**

**25. O dan ba amgylchiadau y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried cynigion i ostwng rheolaethau yn is na'r gofynion sylfaenol cyfredol, er enghraifft, ynghylch lefel y sylweddau y gellir eu dal, neu mewn perthynas â'r broses gydsynio?**

**26. A allwch egluro a fyddai newidiadau i'r gofynion sylfaenol cyfredol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd?**

**27. I ba raddau yr ydych chi'n fodlon bod digon o arbenigedd technegol ar lefel Cymru neu'r DU i gymryd lle'r hyn sydd ar gael ar lefel UE ar hyn o bryd yn y maes polisi hwn?**

**28. Yn absenoldeb gofynion newydd neu ddiwygiedig yr UE mewn perthynas â chynllunio o ran sylweddau peryglus sy'n gymwys i'r DU, pa drefniadau a roddir ar waith i adolygu gofynion domestig, gan ystyried datblygiadau mewn mannau eraill?**

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau uchod cyn gynted â phosibl, ac erbyn 13 Tachwedd 2020 fan bellaf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a Chadeirydd Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

Yn gywir,



**Mike Hedges AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Senedd Cymru

SeneddMADY@senedd.cymru

27 Hydref 2020

Annwyl David,

**Cysylltiadau Rhynglywodraethol**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Hydref ar ein rhyngweithio â Llywodraeth y DU ar Fil Marchnad Fewnol y DU, parodrwydd ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, a’r adolygiad ar y cyd o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.

**Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol**

Rydym yn gwneud cynnydd ar beirianwaith rhynglywodraethol newydd yn ogystal â mecanwaith gwell ar gyfer osgoi a datrys anghydfodau. Mae swyddogion yn parhau i gydweithio ar y cynigion, sydd bellach wedi datblygu'n dda.

Cynhaliwyd dau gyfarfod Gweinidogol pedairochrog i drafod y cynigion. Yn y cyfarfodydd diweddaraf, a gadeiriwyd gennyf i, nodwyd effaith sylweddol a goblygiadau andwyol Bil Marchnad Fewnol Llywodraeth y DU ar gysylltiadau rhynglywodraethol, a galwais am ei ddiwygio i barchu datganoli. Rwyf yn parhau i bwysleisio'r angen i gwblhau'r adolygiad a dechrau'r gwaith o roi trefniadau llywodraethu newydd ar waith cyn diwedd y cyfnod pontio. Mae’n bwysig iawn nad ydym yn cyrraedd mis Ionawr heb i’r trefniadau newydd fod yn eu lle.

O ran Adolygiad yr Arglwydd Dunlop o Alluedd Llywodraeth y DU o ran yr Undeb, buom yn rhan o'r adolygiad y llynedd, pan siaradodd Prif Weinidog Cymru a mi, yn ogystal â'r Ysgrifennydd Parhaol, â'r Arglwydd Dunlop yng Nghaerdydd. Er gwaethaf hyn, nid yw Llywodraeth y DU wedi rhannu'r adroddiad a gawsant rai misoedd yn ôl â ni eto. Gan nad yw Llywodraeth y DU wedi bod

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymruPSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yn barod i rannu canfyddiadau Adolygiad Dunlop, nid yw'n bosibl cadarnhau felly a yw'n dylanwadu ar gysylltiadau rhynglywodraethol.

**Bil Marchnad Fewnol y DU**

Er ein bod o blaid cynnal cydlyniad marchnad fewnol y DU a hefyd gyfundrefn gymorthdaliadau ar gyfer y DU gyfan, mae Bil Marchnad Fewnol Llywodraeth y DU mynd ymhell y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni'r nodau hyn. Yn hytrach na chryfhau'r ymdrechion drwy raglen y Fframweithiau Cyffredin i gyd-ddylunio, drwy gydsyniad, fesurau a fyddai'n diogelu'r farchnad fewnol a chymhwysedd datganoledig, byddai'r Bil yn eu tanseilio.

Rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i gynnig gwelliannau i Fil y Farchnad Fewnol, er mwyn gwneud y Bil yn un y gallem argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad iddo. Mae gofyn ei newid yn sylweddol, ond credwn yn gryf y byddai'r newidiadau hyn yn fuddiol nid yn unig i Gymru, ond i'r Deyrnas Unedig gyfan.

Yr wythnos diwethaf, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig a oedd yn cynnwys gwelliannau arfaethedig Llywodraeth Cymru i'r Bil ac rydym yn gobeithio y bydd Tŷ'r Arglwyddi yn ymgymryd â hwy.

Rydym hefyd wedi ymgysylltu â Llywodraeth y DU, ac amlinellir y manylion yn Atodiad A.

**Parodrwydd ar gyfer diwedd y cyfnod pontio**

O ran ymgysylltu cyffredinol, rwyf i a'm swyddogion wedi dadlau'r achos yn gyson dros y misoedd diwethaf dros rannu gwybodaeth yn llawn am brosiectau parodrwydd Llywodraeth y DU. Rwyf wedi codi'r pwynt hwn gyda Michael Gove yng nghyfarfodydd Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE), a chyda Penny Mordaunt mewn Cyfarfodydd Gweinidogol Pedairochrog. Er enghraifft, ysgrifennais at Weinidogion Llywodraeth y DU ar 15 Medi ynghylch ffiniau. Rwy'n dal i aros am ymateb.

Ym mis Hydref, fe wnaeth Gweinidogion Llywodraeth Cymru fynychu tri chyfarfod o Bwyllgor Cabinet 'XO' Llywodraeth y DU, ein gwahoddiad cyntaf ers Ionawr 2020.

Mae cyd-Weinidogion hefyd wedi ysgrifennu ynghylch materion penodol; er enghraifft, ar 14 Hydref, gofynnodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig am eglurder ynghylch cynlluniau Llywodraeth y DU ar faterion yn ymwneud â chyflenwi bwyd, gan gynnwys dadansoddiad sylfaenol ar dybiaethau cynllunio Llywodraeth y DU. Ysgrifennodd y Gweinidog Addysg at y Gweinidog Gwladol dros Ffiniau a Mewnfudo yn y Dyfodol ar 25 Medi ynghylch newidiadau i'r fisa ôl-astudio a'r diffyg rhybudd ymlaen llaw a roddwyd i Lywodraeth Cymru er gwaethaf effaith y newidiadau hyn ar faes sydd wedi'i ddatganoli'n llawn. Ysgrifennodd y Gweinidog Addysg hefyd at y Gweinidog Gwladol dros Brifysgolion ar 14 Medi ac eto ar 18 Medi yn dilyn Cyfarfodydd Gweinidogol Pedairochrog ynghylch newidiadau i'r crynodeb gweithredol o'r achos busnes dros ddewis domestig amgen i Erasmus+. Ym mis Mehefin, ysgrifennodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at George Eustice AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig mewn perthynas â gwiriadau Glanweithiol a Ffytolanweithiol; ac ym mis Awst at Victoria Prentis AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn Defra, mewn perthynas â gwybodaeth am fewnforio nwyddau hanfodol.

Mae ystod eang o gyswllt mynych hefyd rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a chymheiriaid yn Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ar waith sy'n gysylltiedig â pharatoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

**Atodiad A**

**Marchnad Fewnol y DU**
**Y trafodaethau a’r ohebiaeth ddiweddaraf â Llywodraeth y DU**

| | | |
|---|---|---|
| 7 Gorffennaf | Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol: Pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch Marchnad Fewnol y DU yn y dyfodol | 2020-07-07 FINAL CGMET letter to CDL a |
| 16 Gorffennaf | Cyfarfod rhwng Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru a’r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, cyn cyhoeddi Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar Farchnad Fewnol y DU | |
| 14 Awst | Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Bapur Gwyn Llywodraeth y DU | 2020-08-14 IM White Paper - FINAL L |
| 1) w/c 24 Awst | 2) Roedd cyfarfodydd ar lefel swyddogion yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyn yn canolbwyntio ar dri maes:<br>3) Llywodraethu – Swyddfa'r Farchnad Fewnol<br>4) Cydnabyddiaeth Gilyddol<br>5) Cysylltiadau rhynglywodraethol | |
| 2 Medi | Cyfarfod rhwng y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd a’r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i Bapur Gwyn Llywodraeth y DU | |
| 8 Medi | Llythyr gan weinidogion Llywodraeth y DU at Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru: Amlinelliad o Fil Marchnad Fewnol y DU cyn ei gyhoeddi ar 9 Medi | |
| 22 Medi | Llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd: Ymateb i ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Papur Gwyn (14 Awst) | |
| 25 Medi | Cyhoeddi memorandwm cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru: https://senedd.wales/laid%20documents/lcm-ld13513/lcm-ld13513-w.pdf | |
| 28 Medi | Cyfarfod rhwng y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, Chloe Smith AS (Gweinidog Swyddfa'r Cabinet ar gyfer y Bil) a’r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru. | |
| w/c 5 Hydref | Cyfres o gyfarfodydd ar lefel swyddogion rhwng Llywodraeth Cymru a BEIS, Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa Cymru: | |

| | | |
|---|---|---|
| | 1) Rhan 4: Swyddfa'r Farchnad Fewnol<br>2) Rhan 5: Protocol Gogledd Iwerddon a Rhan 7: Statws deddfiad gwarchodedig<br>3) Rhannau 1-3: Cydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu<br>4) Rhan 7: Rheoli cymorthdaliadau<br>5) Rhan 6: Pwerau cymorth ariannol | |
| 13 Hydref | Cyfarfod rhwng y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd a Chloe Smith AS, a Simon Hart AS. | |
| 15 Hydref | Cyhoeddi gwelliannau arfaethedig Llywodraeth Cymru i Fil y Farchnad Fewnol: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-gwelliannau-llywodraeth-cymru-i-fil-marchnad-fewnol-y-deyrnas-unedig?_ga=2.93525213.155309944.1603288753-832368275.1548154346 | |
| 16 Hydref | Cyfarfod ar lefel swyddogion rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i drafod y gwelliannau | |

Department for International Trade

**The Rt Hon Greg Hands MP**
**Minister of State for Trade Policy**
**Department for International Trade**
King Charles Street
Whitehall
London
SW1A 2AH

T +44 (0) 20 7215 5000
E Hands.Correspondence@trade.gov.uk
W www.gov.uk

**Our ref: MCB2020/05291**

David Rees MS
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

By email: SeneddEAAL@senedd.wales

27 October 2020

Dear Mr Rees,

Thank you for your letter of 14 October regarding access to trade negotiation documents following the 24 September meeting of the External Affairs and Additional Legislation Committee.

The eleven TAGs represent specific sectors vital to the economy, and their expertise is drawn upon to inform and strengthen the UK's negotiating position and trade. Members have been selected to ensure all UK regions are represented, with a good cross-section of businesses and a range of expert advice.


As Baroness Morgan noted in the same committee appearance you have raised, the relationship between DIT and the Welsh Government is both positive and strong. Our programme of engagement with the devolved administrations is comprehensive, in depth and constructive. We share written information that relates directly to the competence of the Welsh Government and Senedd. Furthermore, we engage across all areas of trade policy, including those areas that relate solely to reserved competence, ensuring there is a good understanding of the positions that are developed and any underlying analysis.

All devolved administrations, including the Welsh Government, are involved in the development and delivery of trade policy in the broadest possible terms whilst respecting the current constitutional settlement, with the negotiation of international trade agreements being reserved.

I would like to take this opportunity to thank the committee for their interest in our work and note that we continue to welcome the constructive and useful input of the Welsh Government in our FTA programme.

I am copying this letter to Minister Miles in the Welsh Government.

Yours sincerely,



**THE RT HON GREG HANDS MP**
Minister of State for Trade Policy
Department for International Trade

**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/our ref
Ein cyf/Our ref

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Hydref 2020

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Hydref. Amgaeir copi o'r ohebiaeth a anfonwyd gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ar 23 Medi ynglŷn â Grwpiau Cynghori Llywodraeth y DU ar Fasnach a materion eraill yn ymwneud ag ymgysylltu â rhanddeiliaid. Amgaeir hefyd restr o aelodau Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar Bolisi Masnach, yn unol â'ch cais.

Yn anffodus, ni allaf ddarparu gohebiaeth ichi ar y mater hwn gan fy swyddogion. Nid yw fy swyddogion yn gohebu'n ffurfiol yn y ffordd hon â'u swyddogion cyfatebol yn yr Adran Masnach Ryngwladol, er eu bod yn gweithio'n adeiladol iawn gyda'i gilydd. Os oes angen codi materion yn ffurfiol, gwneir hynny drwy ohebiaeth Weinidogol.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Minister for International Relations and the Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref IM/EM/00509/20

Greg Hands MP
Minister of State
Department for International Trade
King Charles Street
Whitehall
London
SW1A 0AA

Hands.Correspondence@trade.gov.uk

23 September 2020

Dear Greg,

Thank you for your letter of 25 August about the creation of a cohort of Trade Advisory Groups (TAGs) which will provide advice to your department to inform free trade agreement negotiations. I thought I would use the opportunity to set out some of my thoughts around stakeholder engagement more generally and how we might work better together in this crucial area. I would be keen to discuss this with you in our next bilateral.

**TAGs and STAG**

With regards to the TAGs, I am pleased that the agri-food group membership includes Welsh representation from farming unions as this is, as you know, a key sector for us. However, I would have liked to have seen the sector in Wales more broadly represented and the supply chain adequately picked up. I am also very disappointed at the lack of Welsh representation on the other TAGs, particularly on the automotive, aerospace and marine group, and the financial services group. For example, Admiral Group plc, Wales' only indigenous FTSE 100 business, and the Welsh Automotive Forum would have brought a great deal of knowledge and expertise to the financial services and automotive, aerospace and marine groups respectively. We would have been pleased to engage with you on the recruitment process for the TAGs and nominate Welsh companies for you to consider and approach.

I would be keen to discuss with you how we might improve the engagement between your department and Devolved Administrations in relation to stakeholder advice and involvement. It would be helpful if your department could engage with my officials more closely on external stakeholder engagement matters, particularly the TAGs. This will ensure that the

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

advice you are receiving from businesses to inform UK trade policy supports all parts of the UK. For example, it would be appreciated if you could invite my officials to observe TAG meetings or, at the very least, share minutes of those meetings with us. In respect of the STAG, it would be useful to understand whether Wales will be represented on the group, and to be sighted on the details of the new members in advance of publication.

**The Trade and Agriculture Commission**

On the subject of stakeholder engagement I would also like to raise the new Trade and Agriculture Commission (TAC) with you. I understand that my officials have received an update from your department on the work of the Commission to date and on the working groups that are currently being set up. We are grateful for this engagement. However we still have some questions about the role of the TAC, particularly where recommendations may impact on domestic policy, which is of course devolved for agriculture. I would appreciate reassurance that any recommendations made by the Commission will be aimed purely at the UK Government and in reserved areas. Should input be sought on matters that are devolved, such as domestic standards or agriculture support policy, it should be made clear to stakeholders that the Commission is only seeking views on policy that will apply in England. I would also like to be clear that although we appreciate and fully support the inclusion of Welsh stakeholders on both the TAC itself and its working groups, we do not believe this approach in itself will adequately capture all Welsh views.

I would reiterate that I am keen to discuss how we might ensure genuine and inclusive engagement in the establishment of UK stakeholder groups in future as we have considerable first hand expertise and knowledge that I feel could significantly enhance your selection pool. I look forward to discussing these issues with you soon.

Yours sincerely,



**Eluned Morgan AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

**Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar Bolisi Masnach**

**Aelodau Craidd:**

1. Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru – cynrychiolir gan Andy Richardson, Pennaeth Materion Corfforaethol, Volac International Limited
2. Hybu Cig Cymru – Kevin Roberts, Cadeirydd
3. TUC Cymru – Shavannah Taj, Ysgrifennydd Cyffredinol
4. FairTrade Wales – Aileen Burmeister, Cydgysylltydd Cenedlaethol
5. Fforwm Modurol Cymru – Tim Williams, Prif Swyddog Gweithredol
6. MediWales – Rhwydwaith Gwyddorau Bywyd Cymru – Debbie Laubach, Rheolwr Gweithrediadau
7. Aerospace Wales – cynrychiolir gan Madeleine Pinder, Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu, Spectrum Technologies
8. Make UK – Richard Rumbelow, Cyfarwyddwr Materion Rhyngwladol a Gwasanaethau Allforio
9. FinTech Wales – Gavin Powell, Ysgrifennydd Cyffredinol, FinTech Wales
10. IQE – Chris Meadows, Rheolwr Cysylltiadau â Buddsoddwyr

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Senedd Cymru

SeneddEAAL@senedd.cymru

3 Tachwedd 2020

Annwyl Gadeirydd

Rwy’n ysgrifennu i roi gwybod ichi y bydd uwchgynhadledd rhif 34 y Cyngor Prydeinig–Gwyddelig yn cael ei chynnal yn ddiweddarach yr wythnos hon. Cytunodd y Gweinyddiaethau sy’n Aelodau i ohirio’r Uwchgynhadledd a oedd i fod i gael ei chynnal yn gynharach yn y flwyddyn. Bydd yn cael ei chynnal yn rhithwir gan Lywodraeth yr Alban.

Bydd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru a minnau yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn y gynhadledd. Bydd yr uwchgynhadledd yn canolbwyntio ar ddatblygiadau gwleidyddol diweddar, gan gynnwys ein hadferiad economaidd o coronafeirws.

Bydd communiqué yn cael ei gytuno gan y Cyngor yn yr uwchgynhadledd a byddaf yn rhoi gwybod i Aelodau maes o law am fanylion cyhoeddi’r communiqué ac am ganlyniadau’r uwchgynhadledd.

Cyn yr Uwchgynhadledd, cynhelir cyfarfod Gweinidogol sector gwaith Amgylchedd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig i adolygu gwaith ar y cyd ar yr amgylchedd morol, newid yn yr hinsawdd a rhywogaethau ymledol nad ydynt yn frodorol. Bydd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod hwn.

Mewn datganiad ar gysylltiadau rhynglywodraethol yr wythnos diwethaf, gydag adroddiad blynyddol cyntaf Llywodraeth Cymru i’r Senedd ar gysylltiadau rhynglywodraethol ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020, a osodwyd ar 27 Hydref, tanlinellais bwysigrwydd ein perthnasoedd gyda’n partneriaid yn y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Dyma berthynas a fydd, gobeithio, yn parhau i dyfu mewn pwysigrwydd wrth i’r cyngor barhau i ddangos yr hyn sy’n bosibl ei gyflawni drwy drafod a chydweithio.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi anfon llythyr tebyg at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS a Chadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, Mike Hedges AS.

Dymuniadau gorau



**MARK DRAKEFORD**

**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

03 Tachwedd 2020

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Medi a chopi o'ch adroddiad a anfonwyd at Eluned Morgan AS, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol bryd hynny. Yn dilyn y newidiadau diweddar i bortffolios Gweinidogion, rwyf yn ymateb gan fy mod bellach yn arwain ar faterion sy'n ymwneud â pholisïau masnach ar ran y Prif Weinidog.

Carwn ddiolch i'r Pwyllgor am graffu ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Masnach. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad yr adroddiad yn Atodiad A. Ar ben hynny, roedd yr adroddiad yn codi dau bryder nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw argymhellion ac rwyf wedi rhoi sylw i'r rhain isod:

*Dibyniaeth Llywodraeth Cymru ar ymrwymiadau Gweinidogol fel sail ar gyfer argymell rhoi cydsyniad deddfwriaethol*

Mae'r Pwyllgor wedi cydnabod ymdrechion fy rhagflaenydd i sicrhau consesiynau i'r Bil hwn mewn amgylchiadau anodd lle nad oes gan Lywodraeth y DU fawr o gymhelliant i gyfaddawdu. Er fy mod yn cytuno bod cytundebau anneddfwriaethol ymhell o fod yn ddelfrydol, mae'r dull hwn sy'n cael ei gydnabod a'i dderbyn yn rhoi rhywfaint o bwysau o leiaf ar Lywodraeth y DU i gadw at ei haddewidion. Rwyf yn llwyr ddeall eich pryderon ynglŷn â dal Llywodraeth y DU i gyfrif, a gallaf eich sicrhau bod hyn yn flaenoriaeth i minnau hefyd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*Ymestyn y cyfnod y gellir defnyddio pwerau cymal 2*

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd sefyllfa lle’r oedd yn fodlon argymell cydsyniad deddfwriaethol i gymal 2(7) ar sail yr ymrwymiadau anneddfwriaethol yr oedd wedi’u sicrhau gan Lywodraeth y DU pan roedd Bil Masnach 2017-19 yn mynd drwy'r Senedd. Roedd y rhain yn cynnwys ymrwymiad cyhoeddus yn Senedd y DU i ymgysylltu â’r gweinyddiaethau datganoledig cyn ymestyn y cyfnod pan fydd modd defnyddio pwerau cymal 2 o dan y Bil. Derbyniodd y Senedd y safbwynt hwn a rhoddodd gydsyniad deddfwriaethol ar y sail hon. Ar ben hynny, ac fel y nodwyd yn eich adroddiad, roedd y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol wedi ysgrifennu at ei chyd-Weinidog ar 11 Medi. Roedd y llythyr yn gofyn am ailddatganiad pellach o’r ymrwymiad sy’n ymwneud â’r cymal darpariaeth fachlud. Cafodd ailddatganiad penodol o’r ymrwymiad ei wneud ar gam pwyllgor yn Nhŷ’r Arglwyddi ar 8 Hydref.

Fel yr wyf wedi’i ddweud, cytunaf nad yw hi’n ddelfrydol dibynnu ar ymrwymiadau cyhoeddus a wneir yn Senedd y DU, ond maent wedi cael eu derbyn, gan gynnwys gan y Senedd hyd yma, fel ffordd ddilys y gall llywodraethau datganoledig ei defnyddio i ddal Llywodraeth y DU i gyfrif mewn perthynas â Biliau’r DU, pan nad oes mesurau diogelu eraill ar gael. Byddai dibynnu ar ymrwymiad sydd wedi cael ei wneud yn gyhoeddus yn Senedd yn y DU yn yr achos hwn felly’n cyd-fynd â'r dull gweithredu sydd wedi cael ei ddefnyddio mewn deddfwriaeth arall.

Byddwn yn fodlon ymhelaethu ar unrhyw rai o’m hymatebion yng nghyfarfod sesiwn craffu nesaf y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 5 Tachwedd.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

**Atodiad A**

**Ymatebion Llywodraeth Cymru i Argymhellion gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Masnach y DU**

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **Argymhelliad 1**<br><br>Rydym yn argymell unwaith eto y dylid cymhwyso’r weithdrefn gadarnhaol wrth lunio rheoliadau i ddiweddaru'r rhestr o gyrff cyhoeddus yng Nghymru a fydd yn ddarostyngedig i’r GPA. | **Penderfyniad – Gwrthod**<br><br>Yn y gorffennol nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwrthwynebu'r ffaith bod rheoliadau a wneir dan gymal 1 yn ddarostyngedig i’r weithdrefn negyddol ac ar y sail hon argymhellodd fod y Senedd yn rhoi cydsyniad deddfwriaethol i Fil Masnach 2017-19.<br><br>Wrth ddod i’r safbwynt hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y ffaith y byddai’r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio i wneud newidiadau technegol yn bennaf i ddeddfwriaeth ddomestig sydd eisoes yn bodoli er mwyn gweithredu’r GPA pan fydd y DU yn aelod annibynnol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gwelliannau i Reoliadau Contractau Caffael 2015 i sicrhau bod y rhestr o awdurdodau contractio llywodraeth ganolog sy’n dod dan y rheoliadau hynny’n cyd-fynd â rhwymedigaethau'r DU o dan y GPA. Gallai hefyd gynnwys gwelliannau i ddeddfwriaeth ddomestig os byddai parti arall yn ymuno â’r GPA neu os byddai aelod cyfredol yn gadael y GPA.<br><br>Cyfyngedig iawn mewn gwirionedd yw graddau’r disgresiwn y gallai un ai Weinidogion y DU neu Weinidogion Cymru ei arfer.<br><br>Derbyniodd y Senedd y sefyllfa hon pan gytunodd ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar 12 Mawrth 2019 ac wedyn ar 21 Mai 2019 yng ngoleuni dau femorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol. Derbyniwyd mai bach iawn oedd y siawns o lwyddo i sicrhau gwelliant gan Lywodraeth y DU i newid y weithdrefn arfaethedig o un negyddol i un gadarnhaol bryd hynny.<br><br>Ers hynny mae posibilrwydd safbwynt arall a fyddai’n golygu newid ymarferol hefyd yn rhywbeth gwerth ei nodi, a hynny er cyflawnrwydd.<br><br>Mae Llywodraeth gyfredol y DU mewn sefyllfa gryfach, a hithau wedi ennill mwyafrif sylweddol yn y senedd, a chan ei bod wedi ei gwneud yn amlwg nad yw’n barod i newid y weithdrefn a ddefnyddir gyda rheoliadau a wneir o dan gymal 1 mae’n werth nodi ei bod ynannhebygol iawn y byddai unrhyw sylwadau y byddem yn eu cyflwyno i Lywodraeth y DU ar y mater hwn yn cael eu hystyried o ddifrif.<br><br>**Goblygiadau ariannol** – Dim. |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon